

“Gawn ni weddio”

(penderfyniad / dewrder / maddeuant)

Gwelodd Rob fod ffenest yr ystafell molchi yn gilagored. Roedd yn gwybod am bob ystafell yn y tŷ. Roedd, hyd yn oed, yn gwybod ymhle roedd Mrs Evans yn cadw ei harian a'r llyfr siec. Pan oedd yn fachgen yn ei arddgau cynnar byddai'n helpu i drin yr ardd a thwtio o gwmpas y tŷ. Ar ôl cael pryd o fwyd byddai Mrs Evans yn mynd i'r drôl yn y cwpwrdd oedd yng nghornel yr ystafell a thynnu papur £20 iddo. Gwyddai Rob yn dda fod Mrs Evans yn wraig gyfoethog iawn. Felly, heno, roedd yn gwybod y byddai'n mynd â llond ei boced o arian papur.

Cyn iddo fentro am y ffenest gilagored roedd am wneud yn saff fod Mrs Evans yn y lolfa yn gwyllo ei hoff raglen, 'y newyddion Cymraeg', fel byddai hi'n dweud. 'Does neb cystal â Gari Owen am ddarllen y newyddion'; dyna fyddai hi'n arfer ei ddweud wrth Rob pan fyddai'n ymweld â hi ar fore Sadwrn.

Dringodd i ben y ffens ac yna un cam i ben y portico. Agorodd y ffenest yn llydan agored a gwingodd ei ffordd i mewn. Agorodd ddrws gwichlyd yr ystafell molchi. Cododd Mrs Evans oddi ar ei chadair y munud hwnnw. Clywodd Rob ddrws y lolfa yn agor. Brasgamodd ar flaenau'i draed tuag at yr ystafell wely wag. Gwelodd Mrs Evans gysgod tywyll yng ngolau gwan y landin. Gwyddai'n iawn pwy oedd yno. Roedd hi wedi amau ers tro byd fod y bachgen roedd hi wedi bod yn ffeind efo fo ar ryw berwyl drwg.

Yng nghornel yr ystafell roedd gwely sengl heb dillad gwely arno. Llithrodd Rob ei gorff chwe throedfedd o dan y gwely. Clywai sŵn ysgafn yn dod i fyny'r grisiau. Aeth y sŵn tua'r ystafell ymolchi. Gwelodd Mrs Evans fod y ffenest wedi'i hagog led y pen. "Mae o yma'n rhywle," meddai wrthi ei hun. Aeth i'r brif ystafell wely. Edrychodd o gwmpas yn ofalus ond doedd neb yno. Fel roedd hi'n dod allan i'r landin gwelodd fod drws yr ystafell wely sbâr yn gil agored. Prin roedd hi'n mynd i'r stafell honno. Agorodd y drws yn ofalus.

Dechreuodd calon Rob guro fel gordd. Ar ôl iddi roi'r golau ymlaen gwelai fod ymylon y dillad gwely yn troi i fyny. Arhosodd yno'n ddistaw a digynnwrf. Cafodd rhyw nerth anhygoel. Doedd dim ofn neb na dim arni. Clywai sŵn y teledu o'r ystafell islaw a

Gari Owen, ei ffefryn yn dweud, “A dyna ni, dyna’r newyddion. Nos da.” Roedd hi’n tynnu am wyth o’r gloch.

Yn araf cerddodd Mrs Evans at erchwyn y gwely. Doedd hi erioed am gysgu yn y gwely sengl y noson honno meddyliai Rob. Y peth nesaf a welai Rob oedd dwy ben-glin yn gorwedd bron wrth ymyl ei wyneb. Beth ar wyneb y ddaear oedd yn digwydd? Dechreuodd Mrs Evans siarad yn uchel. Meddyliodd Rob ei bod yn siarad efo fo. Ond na, nid siarad efo fo roedd hi ond gweddïo. Daeth rhyw deimlad rhyfedd drosto wrth iddo wrando ar ei geiriau... “O Dduw, wnei di fy helpu i siarad efo’r bachgen sy’n gorwedd o dan y gwely. Mae ganddo broblemau mawr. Pam mae o wedi torri i mewn i’r tŷ yma a finnau wedi bod mor garedig efo fo. Wnei di fy helpu, O Dduw, i ddangos iddo fo y medra i ei helpu...”

Cododd Mrs Evans oddi ar ei gliniau. Yn araf, symudodd Rob a sefyll ar ei draed wrth ei hochr. Ni fedrai ddweud gair na edrych i fyw ei llygaid.

“Rŵan,” meddai Mrs Evans, “tyrd efo fi i lawr y grisiau i ni gael sgwrsio.” Dilynodd Rob hi fel ci wedi lladd defaid.



Adnod: “Bwriwch ymaith oddi wrthyich bob chwerwder, llid, digofaint, twrw a sen, ynghyd â phob drwgdeimlad.”
Effesiaid 4:31



Gweddï: O Dduw, helpa ni i ddysgu maddau i eraill ac i geisio deall pam mae rhai pobl yn ymddwyn fel maen nhw. Amen.



Trafod:

- Beth wnaeth gymell Rob i dorri i mewn i dŷ gwraig oedd wedi bod yn garedig wrtho?
- Fydech chi’n dweud fod y digwyddiad yma’n rhy dda i fod yn wir?